



## Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru

### Further Mathematics Support Programme Wales


#### DATGANIAD NEWYDDION I YSGOLION A CHOLEGAU, Awst 2021

#### Cynnydd uchaf erioed yn y niferoedd i ennill cymwysterau Mathemateg a Mathemateg Bellach Safon Uwch yng Nghymru

Eleni dyfarnwyd y gyfran uchaf erioed o gymwysterau Mathemateg Bellach i fyfyrwyr Mathemateg Safon Uwch yng Nghymru sydd yn gynydd o 12.4% ers y llynedd. Mae cyfran y myfyrwyr Mathemateg Safon Uwch a gafodd gymwyster Mathemateg Bellach hefyd wedi cyrraedd y lefel uchaf, sef 16.6%. Mae hyn yn gynydd pellach o 16.3% a gyflawnwyd y llynedd. Yn ôl y Cyd-gyngor Cymwysterau (2021) digwyddodd y newidiadau canlynol yn nifer y cymwysterau Mathemateg a Mathemateg Bellach a ddyfarnwyd yng Nghymru er 2020:

- Mae niferoedd Mathemateg Safon Uwch wedi cynyddu o 3711 i 4106, cynnydd o 10.6%;
- Mae niferoedd Mathemateg Bellach Safon Uwch wedi cynyddu o 605 i 680, cynnydd o 12.4%;
- Mae nifer y merched y dyfarnwyd Mathemateg Bellach Safon Uwch iddynt wedi cynyddu 18%;
- Mae nifer y merched y dyfarnwyd Mathemateg Safon Uwch iddynt wedi cynyddu 9%.

Graff 1. Canrannau'r myfyrwyr Mathemateg Safon Uwch sydd wedi sefyll Mathemateg Bellach Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr ers 2010 (<https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2021/08/A-Level-and-AS-Results-Summer-2021.pdf>)



Mae canlyniadau Safon Uwch yn parhau i fod yn gryf gyda merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Mathemateg Safon Uwch a Mathemateg Bellach:

- Cafodd 46% o fechgyn a 59.8% o ferched A mewn Mathemateg UG;
- Cafodd 69% o fechgyn ac 82% o ferched A mewn Mathemateg Bellach UG;
- Cafodd 41% o fechgyn a 44% o ferched A\* mewn Mathemateg Safon Uwch;
- Cafodd 62.4% o fechgyn a 62.1% o ferched A\* mewn Mathemateg Bellach Safon Uwch;

Mae'r RhGMBC yn falch bod y canlyniadau'n parhau'n gryf gyda llawer mwy o bobl ifanc yn gallu cyrchu cymwysterau Mathemateg Bellach a symud ymlaen i addysg uwch. Mae cymwysterau Mathemateg Bellach yn parhau i fod yn ofynnol neu yn ffafriol ar gyfer dechrau rhai rhaglenni gradd yn y DU ac mae rhai prifysgolion yn gofyn i fyfyrwyr sefyll arholiadau ychwanegol ac uwch mewn mathemateg.

---

Cafodd Joseph Bailey-Wood a fynychodd Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, bedair gradd A\* a bydd yn cychwyn gradd Peirianeg Gemegol ym Mhrifysgol Caerfaddon. Meddai *“Oni bai am y Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach, ni fyddwn erioed wedi cael yr un cyfleoedd ac adnoddau dwyieithog i'm helpu i ddatblygu fy rhesymu mathemategol. Gosododd RhGMBC sylfaen imi astudio peirianeg yn y brifysgol, ac annog agwedd chwilfrydig tuag at fathemateg”*

Dywedodd Daniel Narain, myfyriwr o Ysgol Gyfun Penglais sy'n astudio gyda'r RhGMBC: *“Gan nad oedd digon o bobl yn fy ysgol wedi dewis gwneud mathemateg bellach, cefais fy rhoi gyda RhGMBC i'm galluogi i wneud y pwnc yma. Arweiniodd astudio Mathemateg Bellach at welliant yn fy sgiliau mathemateg yn ogystal â helpu i ddatblygu sgiliau dadansodol a datrys problemau. Byddwn yn annog eraill i astudio Mathemateg Bellach yn enwedig os ydyn nhw'n ystyried astudio gwyddoniaeth neu fathemateg i lefel uwch. Yn ogystal â bod â chynnwys pwysig, mae'n dysgu sgiliau datrys problemau gwerthfawr i chi, sy'n hanfodol i'r gwyddorau ac yn gyffredinol.”*

Dywedodd Lili Mair Humphrey a fynychodd Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ac a fydd yn cychwyn gradd Ffiseg gydag Astroffiseg ym Mhrifysgol Caerlŷr: *“Rwyf wedi mwynhau astudio Mathemateg Bellach Safon Uwch trwy'r RhGMBC yn fawr. Mae wedi fy helpu'n fawr gyda fy Mathemateg Lefel A, mae yn bendant wedi helpu i roi gwell dealltwriaeth i mi o'r Fathemateg y byddaf yn ei defnyddio yn y Brifysgol yn fy ngradd Ffiseg gydag Astroffiseg ”*

Lansiwyd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yng Nghymru yn 2010 ac mae'n cynnig cyrsiau datblygiad proffesiynol athrawon, adnoddau dysgu ar-lein, rhaglenni cyfoethogi ar gyfer myfyrwyr CA4 a Safon Uwch yn ogystal ag hyfforddiant byw ar-lein. Dywedodd Dr Sofya Lyakhova, arweinydd y Rhaglen: *“Mae'r adran fathemateg ym Mhrifysgol Abertawe yn falch o barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ehangu mynediad i Fathemateg Bellach yng Nghymru. Gwyddys bod Mathemateg Bellach yn hybu hyder myfyrwyr wrth fynd i wneud rhaglenni gradd cystadleuol gyda myfyrwyr eleni yn mynd i Rydychen, Caerfaddon, Bryste, a phrifysgolion eraill gyda chysuriau gradd yn amrywio o fathemateg i ffiseg a pheirianeg i wyddoniaeth gyfrifiadurol.”*

Dywedodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg: *“Mae yna ystod eang o yrfaedd cyffrous lle mae pynciau STEM yn hanfodol, felly mae'n bwysig iawn ein bod ni'n cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio pynciau fel Mathemateg a Mathemateg Bellach. Rwy'n falch o weld cynnydd yn y nifer sy'n astudio Mathemateg a Mathemateg Bellach eleni a da iawn i bawb sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu canlyniadau Safon Uwch!”*

## Nodiadau i Olygyddion

1. Ariennir RhGMBC gan Lywodraeth Cymru ac fe'i rheolir gan Brifysgol Abertawe, Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS).
2. Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru ar gael yn: <http://mathsbellach.cymru/> . I weld astudiaethau achos gan fyfyrwyr, rhieni ac ysgolion ewch i <http://mathsbellach.cymru/students/case-studies.php>
3. Partneriaeth gydweithredol yw Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS) rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nod WIMCS yw gwella statws mathemateg a chyfrifiadura yng Nghymru, meithrin cysylltiadau â diwydiant, masnach a busnes, cynhyrchu cyllid ymchwil sylweddol a darparu fforwm ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Gwyddorau Mathemategol ([www.wimcs.ac.uk](http://www.wimcs.ac.uk)).
4. Cymerwyd yr holl ffigurau yn yr adroddiad o [www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk).
5. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gweinyddwr RhGMB Cymru drwy e-bostio [rhgmbcymru@swansea.ac.uk](mailto:rhgmbcymru@swansea.ac.uk)

